PWYLLGOR CYMRU Y GWASANAETH CYFREITHIOL CYMUNEDOL (CLS)

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 7 Mawrth 2008 yn Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd

Presennol: Tom Jones – Comisiynydd Cymru, LSC (Cadeirydd)
Lynne Schofield – Llywodraeth Cynulliad Cymru
Paul Davies – Cyfarwyddwr Cymru, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol,
Fran Targett – Cyngor Ar Bopeth Cymru (Cadeirydd Fforwm Cen. CAB)
Catrin Williams, CAFCASS Cymru
Rhys Evans, Cyngor Defnyddwyr Cymru
Yvonne Thomas – Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
Dr Caroline Turner – Llywodraeth Cynulliad Cymru
Paul Newell – Pennaeth Polisi Sifil, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Alexy Buck – Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol, LSC
Gareth Moss – SOLACE Cymru
Jane Shepherd – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Teresa Shackell – Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, Caerdydd

Staff Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol Cymru
Tiana Williams – Rheolwr Polisi Cymru
Emma Rouse – Datblygydd Polisi
Tracy Scott – Ysgrifenyddiaeth

Ymddiheuriadau am absenoldeb:
Graham Benfield – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Naomi Alleyne – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Crispin Passmore, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Dafydd Ifans, CAFCASS Cymru
Dr Neil Wooding – Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

1.	**Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Chroeso** Croesawodd Tom bawb i'r cyfarfod a nodwyd ymddiheuriadau ar ran yr uchod.	
2.	**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2008** Cadarnhawyd y cofnodion. Nodwyd y byddent ar gael yn ddwyieithog ar wefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gyda chofnodion cyfarfodydd blaenorol.	
3.	**Materion yn Codi** Cynhaliwyd digwyddiad ar gyfer Aelodau Seneddol Cymru ym mis Ionawr 2007 i'w hysbysu am y datblygiadau diweddaraf a rhaglen ad-drefnu Ffordd Ymlaen. Bwriedid cynnal digwyddiad tebyg ym mis Ionawr 2008, ond ni ddigwyddodd hyn gan fod yr LSC wedi trefnu cyfarfod canolog ar gyfer Aelodau Seneddol yn ystod mis Rhagfyr. Dywedodd Paul Davies mai'r bwriad oedd cynnal y digwyddiad yn yr Haf i roi manylion am raglen waith y Comisiwn ar gyfer y dyfodol a'r effaith yng Nghymru. Bu'r nifer yn bresennol yn y digwyddiad a gynhaliwyd yn y Senedd	

	ar gyfer Aelodau Cynulliad yn siomedig, ond nodwyd i'r rhai oedd yn bresennol o awdurdodau lleol ei gael yn ddefnyddiol iawn. Cytunwyd ei bod yn bwysig parhau i roi gwybodaeth i Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol. Dywedodd Fran Targett fod yr ymchwil a wneir ym Mhrifysgol Bangor ar ran Cyngor Ar Bopeth Cymru wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd yn awr adroddiad drafft ar gyfer y cyfnod gyntaf o ymchwil. Cytunwyd y byddid yn rhoi'r eitem hon ar yr agenda pan y'i cyhoeddir.	
4.	**Diweddariad ar weithredu Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru** Dywedodd Tiana Williams y gwnaed ymdrech gref i gynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol yng Nghymru parthed comisiynu ar y cyd. Cynhaliwyd trafodaethau dechreuol gyda 9 awdurdod lleol a chyfres o gyfarfodydd dilynol. Roedd llawer o awdurdodau lleol wedi dweud y byddai'n well ganddynt gael trafodaethau agored gyda darparwyr gwasanaeth presennol ar gam cynnar yn hytrach nag ar ôl gwneud unrhyw gytundeb ffurfiol i gydweithio. Cynhaliwyd Cyfarfod Agored gyda rhanbarth Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr i gyfathrebu'r hyn a ymchwilir. Cynhaliwyd digwyddiad tebyg yng Nghastell-nedd Port Talbot ac er bod llawer o gwestiynau, cafodd y cynigion adborth cadarnhaol. Ebrill 2009 oedd y dyddiad cyntaf arfaethedig ar gyfer y Rhwydwaith Cyngor Cyfreithiol Cymunedol. Rhoddodd Gareth Moss safbwynt Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr o'i ymgyfraniad hyd yma. Croesewid yr ymagwedd ofalus a phetrus yn ychwanegol at y pwyslais o'i gael yn iawn, yn hytrach na symud ymlaen gydag amserlen Ebrill 2009. Nodwyd fod yr etholiadau lleol ledled Cymru ym mis Mai yn cael effaith ar unrhyw benderfyniadau lleol a wneir ar hyn o bryd. Dywedodd Paul Newell nad oedd unrhyw ddisgwyliad am gytundeb ffurfiol gydag unrhyw awdurdodau lleol yng Nghymru hyd ar ôl yr etholiad. Ni wnaed unrhyw benderfyniad cadarn am sut y datblygid y broses ar gyfer pob ardal ac roedd hyn yn cael ei fwydo mewn drwy drafodaethau lleol. Nodwyd fod y Ganolfan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol yng Nghaerlŷr wedi golygu proses ddatblygu 3-blynedd a 2 broses tendro er mwyn cyrraedd sefyllfa lle medrai'r Ganolfan fod yn barod am wasanaeth. Dywedodd Alexy Buck fod y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol yn cynnal prosiect ymchwil ar CLAC a CLAN, a fydd ar gael i'r Pwyllgor. Dywedodd Yvonne Thomas fod 10% o'r boblogaeth troseddwyr yn ddinasyddion tramor a holodd a fyddai hyn yn grŵp cleient a dargedir wrth ystyried comisiynu a chyflenwi gwasanaethau. Roedd y model o garchar traddodiadol yn annhebyg o weithio a byddai gwasanaethau ffôn yn werthfawr iawn gan y symudir carcharorion o amgylch yn aml oherwydd bod carchardai yn llawn. Cadarnhaodd Paul Newell yr ystyrir y grŵp cleient, ond byddai faint o flaenoriaeth a roddir i'r grwp yn fater i'w drafod.	

	Dywedodd Paul Davies fod Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (CLA), sy'n cynnwys gwasanaeth cyngor ffôn, wedi bod yn weithredol am 3 blynedd. Nodwyd y rhoddir mwyafrif y cyngor a roddir yng Nghymru wyneb-i-wyneb ond rhoddir ystyriaeth i sut y gall cyngor ffôn roi model arall o ddarpariaeth cyngor. O fis Ebrill ymlaen, caiff system gwneud apwyntiadau ei pheilotio yng Nghymru drwy'r CLA. Cyflwynir canlyniadau'r cynllun peilot i'r Pwyllgor unwaith y byddant ar gael. Cytunodd Paul Davies siarad gydag Yvonne am y gwasanaeth ffôn sydd ar gael a sut y medrir cysylltu hyn gyda charchardai yng Nghymru. Dywedodd Tiana Williams y daethpwyd i gytundeb mewn egwyddor gyda Jocelyn Davies AC a Brian Gibbons AC am gyd-gomisiynu rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol am wasanaethau cyngor cyfreithiol ar dai. Cadarnhaodd Lynne fod trafodaethau'n awr yn canolbwyntio ar weithio drwy fanylion sut y byddid yn rhoi hyn ar waith.	
5	**Adolygu Adroddiad ac Argymhellion – Cyfarfod Ymgysylltu â Dinasyddion, 7 Rhagfyr 2007** Rhoddodd Emma Rouse adroddiad cyffredinol ar ddiben a chylch gorchwyl y digwyddiad. Nodwyd fod y digwyddiad wedi dynodi gwahanol lefelau o ddealltwriaeth am wasanaethau cyfreithiol a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Cytunodd y Pwyllgor fod angen datblygu mwy o ddealltwriaeth a mwy o godi ymwybyddiaeth. Awgrymodd yr adroddiad efallai mai rhwydweithiau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru oedd y cyfryngau mwyaf addas ar gyfer rhaeadru a rhannu gwybodaeth. Cefnogwyd yr ymagwedd hon gan y Pwyllgor, a nodwyd y byddai Emma'n trafod y camau gweithredu a awgrymir gyda Graham Benfield cyn y cyfarfod nesaf. Ystyriwyd fod y digwyddiad yn un llwyddiannus yn gyffredinol, gyda mwyafrif y bobl yn hapus i gymryd rhan lawn. Roedd Lynne Schofield yn hapus i gymryd rhan lawn o safbwynt Llywodraeth y Cynulliad a chytunodd edrych sut y medrent gysylltu gyda'r gwaith a wnaethant gydag ysgolion. Rhoddodd Tom Jones adroddiad ar ganfyddiadau'r Tasglu Addysg a Chefnogaeth Cyfreithiol Cyhoeddus (PLEAS), a ddywedodd fod pethau da'n cael eu gwneud ond nid ym mhobman. Nodwyd o adroddiad Hazel Genn ym mis Gorffennaf fod diffyg cyffredinol gwybodaeth pa help sydd ar gael, yn ogystal â diffyg eglurdeb beth mae gwahanol sefydliadau yn gyfrifol amdano. Dywedodd Yvonne Thomas fod y Grŵp Rhyng-Weinidogol yn cwrdd yn chwarterol ac awgrymodd gael eitem ar yr agenda. Awgrymodd Alexy Buck y medrid dodi gwybodaeth ar y wefan ar gyfer cynghorwyr gofal iechyd sylfaenol. Dywedodd Paul Davies yr ysgrifennwyd at feddygfeydd i roi cyhoeddusrwydd i linell cyngor ffôn y CLA, ond ymateb gwael a gafwyd. Anfonwyd poster a deunyddiau cyhoeddusrwydd arall at bob meddygfa, ond dangosodd ymweliadau dilynol i rai meddygfeydd na chawsant eu dangos. Cytunodd Fran Targett i siarad gyda Paul am gysylltiadau Cyngor Ar Bopeth mewn gosodiadau gofal sylfaenol.	

	Trafododd y grŵp y gwahanol fathau o gynulleidfa a chytunwyd bod angen edrych sut y cyfathrebir gyda phobl. Dywedodd Yvonne Thomas fod gallu darllen nifer fawr o droseddwyr yn gyfyngedig ac y byddai angen datblygu llenyddiaeth addas. Dywedodd Tom Jones yr hoffai ymgynghoriad yn benodol ar bobl ifanc yng Nghymru ac y byddai'n croesawu cefnogaeth y Pwyllgor. Dywedodd Lynne Schofield efallai y medrai prosiect y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd yn buddsoddi mewn pobl ifanc enwebu pobl sydd eisoes wedi paratoi ar gyfer ymrwymiad. Ychwanegodd Fran Targett fod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwneud gwaith ardderchog ac y byddai'n werth siarad gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ganfod pa rai sy'n cymryd rhan. Holodd Paul Newell pa mor realistig ac ar ba bwynt y dylid eu cynnwys yn y dyluniad, gan y byddai'n anodd bod yn benodol am sut y dylid cyflwyno gwasanaeth. Ychwanegodd Paul y medrai fod yn well gadael hyn i'r cyflenwyr a'r gymuned leol, gan eu galluogi i gael cyfranogiad gweithgar gyda'r bobl sy'n darparu'r gwasanaeth. Ychwanegodd Tom Jones fod angen cael dull ar waith i fesur effaith y cyngor a gyflenwir. Nododd y Pwyllgor yr anfonir y papur pan fydd yn barod at bawb oedd wedi nodi diddordeb yn y digwyddiad a'i ddodi ar wefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol.	
6	**Diweddariad Fforwm Cenedlaethol Gwasanaethau Cyngor Annibynnol CLS** Dywedodd Fran Targett y cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm ddiwedd mis Ionawr ac iddo roi golwg gyffredinol o'r hyn a drafodwyd. Roedd pryderon yn dal i fod am symud tuag at CLAN yng Nghymru a darparwyr bychan heb gontract nad oedd efallai ond yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Roedd llawer o ansicrwydd ymysg y sector o amgylch anghydfod Cymdeithas y Gyfraith gyda'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol am y contract unedig. Roedd sefydliadau Nid er Elw yn wynebu cylch cyllido anodd oherwydd gostyngiad yn y cyllid gan yr awdurdodau lleol. Roedd Fran yn falch gyda'r digwyddiad ymgysylltu â dinasyddion a gyda'r nifer oedd yn bresennol. Cytunodd Fran a Tiana Williams i gydlynu a llunio agenda ar gyfer y cyfarfod ffocws darparydd ym mis Mehefin. Dywedodd Paul Newell fod y Comisiwn cyn y Nadolig wedi hysbysu ei fod yn bwriadu terfynu'r holl Gontractau Unedig a bu trafodaethau dilynol gyda Chymdeithas y Gyfraith. Roedd y trafodaethau hyn yn parhau a gobeithid y byddai canlyniad dros yr wythnosau nesaf.	
7	**Llywodraeth Cynulliad Cymru – diweddariad ar Strategaeth Cynhwysiant Ariannol** Dywedodd Lynne Schofield y sefydlwyd y Grŵp Llywio ar gyfer y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn ystod mis Awst. Roedd y Gweinidog yn frwd i weld cynllun gweithredu. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r FSA a gwneir gwaith i edrych ar	

	fenthyca cyfrifol gwybodus. Byddai'r strategaeth yn targedu grwpiau blaenoriaeth, pobl hŷn, cyn-droseddwyr, rhieni unigol ac ati. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i weithredu premiwm Cymreig ar yr Ymddiriedolaeth Plant lle bydd y gronfa yn talu £50 fesul plentyn, a £100 fesul plentyn mewn ardaloedd amddifadus yn ychwanegol at edrych ar fynediad ysgolion at Undebau Credyd Cymru. Byddai'r strategaeth yn cynnwys mynd i'r afael â'r angen am gyngor cynhwysfawr am fudd-daliadau ym mhob ardal. Lansiwyd yr ymgyrch i annog pensiynwyr a theuluoedd gyda phlant anabl i fanteisio ar fudd-dal treth cyngor ac roedd £1 miliwn y flwyddyn yn awr am gael am y 3 blynedd nesaf. Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r sector bancio i alluogi pawb i gael mynediad i wasanaethau ariannol prif ffrwd, a gyda LINK i gynyddu mynediad i beiriannau arian na chodir tâl am eu defnyddio. Roedd cynlluniau yn y dyfodol agos i recriwtio person ar secondiad i weithio ar y Strategaeth. Dywedodd Lynne fod yr FSA wedi cynnal digwyddiad yn swyddfeydd y Cynulliad ac roedd wedi mynd â thaflenni CLA gyda hi, a gafodd dderbyniad cadarnhaol iawn.	
8	**Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) – Diweddariad ar Gyllid, Budd-daliadau a Llwybr Dyled** Dywedodd Yvonne Thomas fod y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi cyhoeddi ailstrwythuro sylweddol, a arweiniodd at ddod â'r gwasanaeth carchardai a phrawf ynghyd dan ymbarél NOMS. Byddai gai NOMS gyfrifoldebau gweithredol a chomisiynu o 1 Ebrill ymlaen. Dywedodd Yvonne y cafodd pedwar safle eu dynodi yn dilyn ymgynghoriad ar gyfer cyfleusterau carchar newydd o fewn Cymru. Roedd y mater o ddod â charcharorion Cymru yn ôl i Gymru ar agenda llwybr Plant a Theulu. Dywedodd Paul Newell fod y llwybr Cyllid, Budd-dal a Dyled yn un o'r saith llwybr ar gyfer gostwng aildroseddu. Datblygir y gwaith ar y llwybr hwn yng Nghymru rhwng NOMS, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhan o waith y llwybr fu llunio manyleb gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth cyngor dyled i garcharorion. Sicrhawyd £2.5 miliwn ar gyfer cyngor dyled wyneb-i-wyneb yn Lloegr a Chymru o'r Gronfa Cynhwysiant Ariannol (FIF) ac roedd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi cytuno rhoi £2.5 miliwn pellach. Roedd y gwaith yn mynd rhagddo ar y ddogfen tendr am gontract tair blynedd ac fe'i cyhoeddir yn fuan. Dywedodd Alexy Buck fod yr Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol yn gyfrifol am y gwerthusiad dechreuol o FIF ac y cyhoeddir ymchwil bellach yn ystod yr haf ac y byddai ar gael ar wefan y Ganolfan. Dywedodd Yvonne Thomas eu bod yn gweithio ar gynnig i'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i gynnal gwaith ar gyflogadwyedd troseddwyr. Rhagwelir y caiff 15,000 eu trin yn ystod y flwyddyn gyntaf. Cydnabuwyd hefyd fod bwlch rhwng yr amser y caiff carcharor ei ryddhau a bod â hawl i fudd-daliadau, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo i lenwi'r bwlch hwnnw.	

9	**Fframwaith ar gyfer adroddiad ar flwyddyn 1af Pwyllgor Cymru** Cynhaliodd y grŵp drafodaeth am gyfathrebu amcanion y Pwyllgor. Cytunwyd y byddir yn trafod ac yn cytuno ar weithgaredd y dyfodol yn y cyfarfod ym mis Medi ac y byddai hyn yn cynnwys adolygiad ar y Cylch Gorchwyl presennol. Awgrymwyd cynhyrchu dogfen ar wahân i ddiffinio rôl y Pwyllgor dros y deuddeg mis nesaf. Byddai'r ddogfen yn nodi y caiff y cylch gorchwyl ei adolygu adeg adolygiad blynyddol y Pwyllgor. Cynigiodd Tom Jones y dylid gwahodd Ruth Marks, sydd newydd ei phenodi'n Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, i ddod yn aelod neu i annerch cyfarfod yn y dyfodol.	
10	**Unrhyw Fater Arall** Dywedodd Tiana Williams fod Clare Pillman o'r Gwasanaeth Llysoedd wedi methu mynychu cyfarfod heddiw ond fod y Gwasanaeth wedi darparu pecynnau gwybodaeth ar gyfer Llys Cyfiawnder Cymunedol Merthyr Tudful ar gyfer pob un o aelodau'r Pwyllgor.	
	Diwedd y Cyfarfod Diolchodd Tom i bawb am eu presenoldeb yn y cyfarfod ac edrychai ymlaen at eu croesawu i'r cyfarfod nesaf yng Ngogledd Cymru ar 6 Mehefin. Dyddiadau cyfarfodydd 2008 yw: 6 Mehefin – Gogledd Cymru (cyfarfod busnes a chyfarfod ffocws darparydd) 14 Medi – Caerdydd (cyfarfod busnes) Rhagfyr – lleoliad i'w gadarnhau (cyfarfod ffocws dinasyddion [pobl ifanc]).	